**Llythyr 2 Letter 2 Tymor yr Haf 2022 Summer Term Ysgol GWENFFRWD**

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid; Dear Parents and Guardians; 24-05-22

Hoffwn yn gyntaf, ddiolch i bawb ohonoch am bob arwydd o gydymdeimlad yn y cyfnod anodd hwn, ac yn arbennig i'r staff am eu cefnogaeth arbennig. Diolch.
I wish to take this opportunity to thank everyone for your condolences at this difficult time, and especially to Gwenffrwd staff for their very special support. Diolch.

<u>Gweithgareddau Tymor yr Haf: Summer Term Activities 2022</u>

Mor braf yw gallu mwynhau gweithgareddau amrywiol unwaith eto, ar ôl dod allan o gyfyngiadau Covid. Bu'r plant hynaf mewn twrnamentau pêl-droed ac mae Mrs Alys Williams a Bl.6 wedi creu 'Podcast' hyfryd llawn hanes lleol gyda'r cyflwynydd radio Marc Griffiths yn ddiweddar; gwrandewch arno drwy fynd ar :-
https://open.spotify.com/show/30qrwA2vCz4Lz8eevbQD5i neu
https://podcasts.apple.com/gb/podcast/ffrindiau-fflint/id1618427416
It is SO lovely to be able to plan and enjoy various activities as we have moved away from the strict Covid restrictions. The older pupils have taken part in football tournaments and many thanks go to Mrs Alys Williams and the Year 6 pupils for creating such an interesting local history 'Podcast' (working with the Welsh radio presenter, Marc Griffiths). To listen, go to: https://podcasts.apple.com/gb/podcast/ffrindiau-fflint/id1618427416 or
https://open.spotify.com/show/30qrwA2vCz4Lz8eevbQD5i

<u>PENBLWYDD yr URDD yn 100 oed : The URDD's 100th Birthday!</u>
Fel rhan o ddathliadau arbennig yr URDD eleni, bydd mynediad i faes Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych eleni (o ddydd Llun, Mai 30ain ymlaen), yn rhad ac am ddim. Yr unig amod yw eich bod yn gorfod archebu ech tocynnau ar-lein, ymlaen llaw. Felly- archebwch eich tocynnau nawr a mwynhewch y profiad arbennig hwn.
https://urdd.ticketsolve.com/shows

The URDD is a Welsh Youth movement, founded 100 years ago. This year, the National URDD Eisteddfod is held in Denbigh (by Brookhouse Mill) during the half-term week. To celebrate the URDD's 100th Birthday, the Welsh Government have donated funds so that all families can enter FREE of charge. This is a fantastic opportunity for Gwenffrwd families to attend and experience the Eisteddfod field and all its attractions. The only condition is that you have to BOOK your FREE ENTRANCE TICKETS on-line, beforehand. Please try to make the effort to attend if at all possible- it should be fun! https://urdd.ticketsolve.com/shows

MABOLGAMPAU GWENFFRWD Sport Days

Ydyn- mae dyddiau mabolgampau yn ôl- gweler yr amserlen isod o.g.y.dda.

Yes- our Sports days are back! The timetable is a little different this year- please see below:-

| | |
|---|---|
| Bl. / Years 5 & 6<br>(2 sesiwn/sessions) | Mawrth/ Tuesday 14-06-22<br>Bore/ Morning session 9.15 - 9.45 am<br>P'nawn/ Afternoon: 1-3 pm |
| Bl./ Years 3 & 4 | Mercher/ Wednesday 15-06-22<br>1-3pm |
| Bl./ Years 1 & 2 | Iau / Thursday 16-06-22<br>1-3pm |
| Dosbarth Derbyn a Meithrin<br>(Reception & Nursery classes) | Gwener/ Friday 17-06-22<br>1-3pm |

*Os bydd y tywydd yn anffafriol, yna byddwn yn ceisio'r dyddiadau nesaf sych yn yr wythnos ddilynol i gynnal ein Mabolgampau.

* If the weather is unfavourable, then we will attempt to hold our Sports Days during the following week.

Mwynhewch wyliau'r hanner tymor- bydd PAWB yn dychwelyd i Ysgol Gwenffrwd dydd LLUN Mehefin 6ed.

Cofiwch fod dydd Gwener yma yn ddiwrnod di-wisg ysgol.

I hope that you all have a lovely Half Term break; ALL Gwenffrwd pupils and staff will return on Monday June 6$^{th}$.

Please remember that Friday 27$^{th}$ May is a PTA no-school uniform day.

Yn Gywir/ Sincerely,

*M. Iola Owen* (Pennaeth : Headteacher).